

Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol

Bwrdd Rhaglen Strategol Diweddariad Gorffennaf 2022



Croeso i rifyn Gorffennaf e-gylchlythyr misol y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol (RhSGS)

NEWYDDION

Mae cynllun monitro a gwerthuso Rhaglen Model Gofal Sylfaenol Cymru (MGSC) a Datblygu Clwstwr Carlam (DCC) yn nodi sut y bydd uchelgeisiau trawsnewid y rhaglen yn rhoi sicrwydd o gynnydd, rhannu dysgu, a chefnogi uno chynlluniau lleol a rhanbarthol. Darllenwch ragor amdano [yma](#) a gallwch ddod o hyd i ddogfennau ategol ym Mhennod 7 [Gwerthuso](#) yn y pecyn cymorth.

Adolygiad Clwstwr gan Gymheiriaid gallwch ddarllen rhagor am yr adolygiad gan gymheiriaid o'r flwyddyn pontio DCC ym Mhennod 7 o'r pecyn cymorth [yma](#), gyda phapur trosolwg a dogfennau ategol gan gynnwys llinell amser, dogfennau briffio i'r rhai sy'n cymryd rhan eleni. Mae'r wybodaeth yn rhoi trosolwg gwybodaeth o'r cynllun ar gyfer y cyfnod pontio hwn.

Mae **Porth Cymorth Cynllunio i Glystyrau (PCCG)** yn mynegeoio adnoddau o bob rhan o'r system yng Nghymru a allai helpu i gynhyrchu ac adnewyddu cynlluniau blynyddol ar gyfer clystyrau/grwpiau cynllunio traws-glwstwr (GCTG). Mae'r **porth** wedi'i strwythuro i adlewyrchu elfennau allweddol cylch cynllunio, gan roi trosolwg o ystyriaethau/methodolegau ar gyfer asesu ac ymateb i anghenion lleol, cysylltu â ffynonellau gwybodaeth bellach, a chefnogi datblygu sgiliau. Mae'r porth wedi'i ddiweddaru i gynnwys canllawiau ar [grwpiau agored i niwed ac ymylol](#).

Mae dyddiadau wedi'u cadarnhau ar gyfer y **Gweithdai Cydweithredol Proffesiynol i Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (GPPI)** rhanbarthol. Bydd y sesiwn gyntaf yn cael ei chynnal yn ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda ar 27 Gorffennaf 10-12 hanner dydd, gyda dyddiadau ardaloedd Byrddau Iechyd eraill ym mis Awst a Medi. Cysylltwch â Kerrie.Phipps@wales.nhs.uk am fwy o wybodaeth

Mae sesiynau tebyg yn cael eu cwmpasu ar hyn o bryd ar gyfer gweithdai Cydweithredol Nyrsio a bydd mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu pan fydd ar gael.

Allan am sylwadau

Llif Gwaith Seilwaith Cymunedol mae'r Ymgynghoriad Nyrsio Cymunedol Cenedlaethol wedi cael ei rannu'n helaeth er mwyn adolygu a gwneud sylwadau.

Nod y fanyleb Genedlaethol yw;

- Safoni elfennau allweddol Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol
- Amlygu Gwerth Nyrsio Cymunedol
- Gwella ansawdd a Lleihau amrywiad
- Safoni Amseroedd Ymateb
- Symleiddio mynediad ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal eraill
- Cefnogi cydweithio i Nyrsys
- Safoni sgiliau allweddol, a gwybodaeth am Nyrsys Cymunedol

Yr uchelgais yw gwella profiad unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u hiechyd a'u lles.

Os nad ydych wedi derbyn copi a hoffech adolygu a rhannu adborth cysylltwch â sppc@wales.nhs.uk Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 28 Gorffennaf '22.

Mae Chiquita Cusens, Nyrs Arweiniol Genedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn hapus i gyfarfod gydag unigolion neu dimau a hoffai drafod ymhellach, anfonwch unrhyw geisiadau i sppc@wales.nhs.uk .

Ymchwilio i nyrsio digidol yng Nghymru

Mae arolwg wedi ei ryddhau i'n helpu i ddeall technolegau digidol o fewn nyrsio a sut y gallwn wella gwasanaethau yng Nghymru ymhellach. **Rydym yn awyddus i glywed barn nyrsys sy'n gweithio yn lleoliadau cymunedol, lle bynnag y byddwch chi ar y daith ddigidol a beth mae nyrsio digidol yn ei olygu i chi?** Mae'r arolwg bellach yn fyw a byddem yn ddiolchgar iawn petaech chi'n gallu rhannu hyn mor eang â phosibl i **Nyrsys sy'n gweithio mewn Gwasanaethau Oedolion a Phlant o fewn Gofal Cymunedol a Sylfaenol**. Dylai'r arolwg gymryd tua 5 munud i'w gwblhau a bydd yn cau ar **20 Gorffennaf 2022**.

Gallwch weld yr arolwg yma: [Arolwg Nyrsio Digidol \(survey.monkey.co.uk\)](https://survey.monkey.co.uk)

Ar ôl cwblhau'r arolwg hwn, ein nod yw archwilio ymatebion mwy manwl i nyrsio digidol drwy ddefnyddio grwpiau ffocws a chyfweliadau. Os hoffech fod yn rhan o'r gwaith hwn ymhellach, gadewch eich e-bost o fewn yr arolwg, neu e-bostiwch:

Bethan.Whistance@wales.nhs.uk

Cadwch lygad am y canlynol:

Iechyd Meddwl a Lles bydd dyddiadau'n cael eu dosbarthu'n fuan ar gyfer y digwyddiadau ymgysylltu cenedlaethol ar raddfa fawr

Gweminar Confederasiwn y GIG Cynhaliodd 'Gofal Seiliedig ar Leoedd' ar waith yng Nghymru ar 7 Gorffennaf. Rhoddodd y sesiwn hon drosolwg strategol cryno o ofal seiliedig ar leoedd drwy lygaid gwaith clwstwr cyn edrych yn fanwl iawn ar roi 'gofal seiliedig ar leoedd; ar waith yng Nghymru. Clywsom gan amrywiaeth o randdeiliaid a oedd yn gweithio gyda'i gilydd ar lefel clwstwr cyn y pandemig yn ogystal â myfyrio ar eu sefyllfa ar hyn o bryd.

Bydd recordiad o'r sesiwn ar gael ar [Dudalen digwyddiadau gwefan RhSGS](#) yn fuan.

Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (CBC) —i gefnogi lansiad y [Pennod CBC](#) yn y pecyn cymorth DCC byddwn yn cynnal gweithdai i Fyrddau Iechyd a'u timau ar: 4 Awst 1 am-12pm a 8 Medi 1:30pm-3:30pm. Bydd y ddolen i gofrestru i fynychu yn cael ei ddosbarthu yn fuan.

Pecyn cymorth Rheoli Prosiect caiff ei lansio ym mis Gorffennaf— bydd hysbysiad rhyddhau yn cylchredeg i randdeiliaid—mae'r pecyn cymorth hwn yn nodi'r egwyddorion allweddol ar gyfer dylunio, gweithredu a gwerthuso prosiectau ynghyd â llawer o dempledi a allai fod o gymorth i'ch cefnogi gyda'ch prosiect.

Cynllun Gweithredu Atal Gordewdra—Datblygwyd y fersiwn allanol o'r Cynllun Gweithredu Atal Gordewdra Gofal Sylfaenol i'w gyhoeddi gyda chyfathrebu cefnogol yn cael eu cynhyrchu i'w lansio ar 15 Gorffennaf. Darllenwch fwy am hyn [yma](#).

Cysylltwch â'r RhSGS yn



: sppc@wales.nhs.uk



Dilynwch ni: @SPPCWales



[Rhaglen Strategol - Gofal Sylfaenol Un \(gig.cymru\)](#)



Gliciwch yma neu Sganiwch y cod QR



Newyddion efallai eich bod wedi'u colli

Gofal Sylfaenol Gwyrddach: Fframwaith a Chynllun Dyfarnu: Cafodd ei lansio gyda llwyddiant mawr fis diwethaf, gallwch ddarllen am y cynllun gan glicio [yma](#) a dydy hi ddim yn rhy hwyr i gofrestru i ymuno â'r cynllun. Mae dros 40 o feddygfeydd ar draws Cymru wedi'u cofrestru eisoes - cofrestrwch drwy glicio [yma](#).

Atal Diabetes (RhADCG): Cafodd y rhaglen ei [lansio](#) i gyd-fynd ag wythnos 'Ymwybyddiaeth Diabetes' Diabetes UK yn ystod yr wythnos 13-19 Mehefin a oedd yn cynnwys ymweliad gan y Dirprwy Weinidog â Bwrdd Iechyd Bae Abertawe i glywed gan gleifion a gweithwyr proffesiynol am y Rhaglen. Fel rhan o'r lansiad, cyhoeddwyd [Protocol Ymyriadau RhADCG](#) hefyd.